Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 26 Tachwedd 2021.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr James Avison, Mr Mabon Dafydd, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Llion Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Julie Perkins, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Oliver Turnbull, Dr Lynne Williams, Yr Athro Jean White a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau**:Mr Marc Jones a Mr Kailesh Karavadra

**Hefyd yn bresennol:**
Yr Athro Nicky Callow, Yr Athro Andrew Edwards, Mr Rob Eastwood, Mrs Tracy Hibbert, Dr Kevin Mundy, Yr Athro Paul Spencer, Mrs Lorraine Westwood a Mr Lars Wiegand.

Yn ogystal roedd Mr Adrian Vickers, Fusion Partners yn bresennol ar gyfer eitem 21.21, a Mr Mike Wilson, Pennaeth Cynllunio, ar gyfer eitem 21.27.

*Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom*

**21.19 CYFLWYNIAD YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYMRAEG**

A. Rhoddodd yr Athro Andrew Edwards gyflwyniad i'r Cyngor ynghylch Strategaeth y Gymraeg sydd newydd ei chymeradwyo. Nodwyd y bu ymgynghori ynghylch y Strategaeth gyda'r myfyrwyr, y staff a'r rhanddeiliaid, a'i bod wedi'i diwygio yn sgil y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, cyn i'r Pwyllgor Gweithredu ei chymeradwyo. Hysbysodd yr Athro Edwards yr aelodau mai rhan o'r gwaith a wnaed ar Strategaeth y Gymraeg oedd sicrhau ei bod yn unol â'r strategaethau eraill, gan gynnwys y Strategaeth Addysgu a Dysgu, y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a'r Strategaeth Marchnata a Recriwtio.

Hysbyswyd y Cyngor bod i'r Strategaeth chwe Amcan, a bod nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u datblygu hefyd i fesur effeithiolrwydd yr amcanion:

- Ethos: prifysgol wirioneddol ddwyieithog sy'n gosod y Gymraeg yng nghanol pob agwedd ar ei gwaith;
- Marchnata a Recriwtio: Sicrhau bod Prifysgol Bangor yn cael ei chydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ein harloesi yng nghyd-destun y Gymraeg a dwyieithrwydd, fel dewis cyntaf i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ac am arwain ar ddyfnder, ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg;

- Addysgu a Dysgu: Prifysgol lle mae pob myfyriwr yn cael cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a lle gall myfyrwyr drafod eu pwnc yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg;

- Ymchwil: Cael ein cydnabod, yn rhyngwladol, fel arweinwyr wrth gaffael a chynnal ymchwil gyda'r orau yn y byd ar amrywiol agweddau ar y Gymraeg a dwyieithrwydd;

- Profiad Myfyrwyr: sicrhau bod boddhad myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ym mhob agwedd ar fywyd prifysgol, ar ei orau ym Mangor; a

- Pontio, a'r Gymuned: sicrhau bod Bangor yn sefydliad sy'n darparu cyfleoedd i bawb ymwneud â'r Gymraeg, ac sy'n cyfrannu at ffyniant yr iaith yn y gymuned.

C. Cadarnhaodd Cadeirydd Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg, yr Athro Gareth Roberts, y bu ymgynghori â'r Pwyllgor ynglŷn â datblygiad y Strategaeth, a chroesawodd y camau cadarnhaol a gymerwyd nid yn unig wrth ddatblygu'r Strategaeth ond yn fwy cyffredinol o ran y defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol yn ystod y cyfnod diweddar. Nododd yr Athro Roberts fod y Pwyllgor yn edrych ymlaen at oruchwylio datblygiad pellach a gwreiddio'r Strategaeth dros y misoedd nesaf.

D. Bu trafod a chodwyd nifer o bwyntiau fel a ganlyn:

- Dylid normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysgu, ymchwil a gweinyddiaeth y Brifysgol, ac yn benodol dylid gwneud rhagor o waith yn y meysydd hynny o'r Brifysgol lle mae llai o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd er enghraifft y pynciau STEM;

- Croesawyd codi ymwybyddiaeth o'r strategaeth ymhlith rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys busnesau lleol;

- Roedd yn hanfodol sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyrsiau proffesiynol allweddol megis addysg a nyrsio;

- Dylid ystyried cyflwyno cyrsiau trochi i aelodau newydd o'r staff yn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg; a

- Dylid ymchwilio ymhellach i gydweithio ag ymchwilwyr mewn gwledydd dwyieithog ac amlieithog eraill.

D. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i'r Athro Edwards a'i dîm am eu gwaith caled yn cynhyrchu'r Strategaeth a oedd yn cynnig ffordd ymlaen sy'n uchelgeisiol ond yn hynod gadarnhaol i'r Brifysgol.

.

## 21.20 Y DIWEDDARAF

A. Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariadau i'r Cyngor ynghylch tirwedd Addysg Uwch Cymru a'r Deyrnas Unedig. Nodwyd y canlynol yn benodol:

**[1] Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at Ddatganiad diweddar Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru i'r Senedd ynghylch Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (TER) (Cymru) sydd i ddod. Nodwyd bod y bil arfaethedig yn sefydlu comisiwn newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a'i fod yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac y byddai'n dwyn ynghyd addysg uwch ac addysg bellach Cymru, y chweched dosbarth yr ysgolion, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, yn ogystal â'r sectorau ymchwil ac arloesi. Hysbyswyd y Cyngor bod y Brifysgol eisoes yn gweithio ledled y sector AU / AB â'r partneriaethau strategol sydd ganddi gyda Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria, a bod cyfleoedd pellach i ddatblygu'r meysydd hynny wrthi'n cael eu harchwilio. Yn ogystal, dywedodd yr Is-Ganghellor fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnig deddfwriaeth debyg ar hyn o bryd ac y byddai'r Brifysgol yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau lle'r oedd cynigion Cymru a'r Deyrnas Unedig yn y cwestiwn, yn enwedig o ran ymreolaeth sefydliadol. Câi diweddariadau pellach eu cyflwyno gerbron y Cyngor wrth i faterion ddatblygu.

**[2] Ysgol Feddygol**

Atgoffodd yr Is-Ganghellor yr aelodau am yr ymrwymiad sydd gan Lywodraeth Cymru yn ei rhaglen lywodraethu i sefydlu Ysgol Feddygol yn y Gogledd, ac a gadarnhawyd gan y Gweinidog Iechyd yn ystod ymweliad â'r Brifysgol ychydig wythnosau ynghynt. Dros y 3 blynedd diwethaf aeth y gwaith rhagddo ar Feddygaeth i Raddedigion yn y Brifysgol, a derbyniwyd 20 o fyfyrwyr y flwyddyn i raglen CN21 y Gogledd bob blwyddyn, ac mae 60 o fyfyrwyr ar hyn o bryd yn astudio ym mlynyddoedd 1-3. Nodwyd mai Prifysgol Caerdydd sy'n penderfynu ynglŷn â derbyniadau, ac y byddai'r camau nesaf yn golygu llofnodi Memorandwm Dealltwriaeth pellach gyda Chaerdydd a fyddai'n rhwymo'r ddwy Brifysgol i symud ymlaen o safle masnachfraint / deiliad masnachfraint i un lle'r oedd y Brifysgol yn gweithio ochr yn ochr â Chaerdydd yn ei rôl fel Prifysgol Wrth Gefn. Hysbyswyd y Cyngor fod y cam hwnnw'n gyffredin fel cam nesaf wrth sefydlu ysgolion meddygol.

Hysbysodd yr Is-Ganghellor y Cyngor y caiff diweddariad manylach ynglŷn â'r cynnydd gyda'r Ysgol Feddygol ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf fis Chwefror 2022.

**[3] Strategaeth Digidol yn Gyntaf**

Hysbysodd yr Is-Ganghellor y Cyngor fod Strategaeth Digidol yn Gyntaf y Brifysgol wedi'i hymgorffori yn y Strategaeth Addysgu a Dysgu, o dan adain yr Athro Callow. Fel rhan o'r gwaith ar ddatblygu'r Strategaeth Addysgu a Dysgu roedd 8 project sgaffald yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2021. Un o'r projectau oedd y Project Llwybrau Dysgu Hyblyg. Arweiniodd yr ehangu a'r arallgyfeirio parhaus ar systemau cenedlaethol

addysg uwch at sector amrywiol, a adlewyrchir yn nifer ac amrywiaeth gynyddol y sefydliadau addysg uwch, y rhaglenni academaidd, a'r dulliau cyflwyno, yn ogystal ag amrywiaeth ehangach o broffiliau dysgwyr. Mae'r amrywiaeth honno mewn marchnad sy'n gynyddol gystadleuol wedi esgor ar ddull sy'n cael ei yrru fwyfwy gan y farchnad tuag at ddarparu cwricwlwm sy'n ymateb i ofynion y myfyrwyr. Nodwyd mai un ffordd o ateb y gofynion hynny oedd trwy ddarparu llwybrau dysgu hyblyg. Roedd y project sy'n mynd rhagddo'n anelu at lywio dull Prifysgol Bangor o ymdrin ag addysg hyblyg gan ddefnyddio'r wybodaeth a geir i wneud argymhellion ynglŷn â sut mae ymgorffori llwybrau dysgu hyblyg yn narpariaeth addysgu a dysgu'r brifysgol, gyda'r bwriad o gryfhau darpariaeth gyfredol y Brifysgol, annog dysgu gydol oes, a diwallu amrywiol anghenion y darpar fyfyrwyr a'r myfyrwyr cyfredol, a chyflogwyr posib. Yn ogystal, roedd cyfleoedd cwmpasu ar waith i ffurfio partneriaethau gydag endid masnachol i gynorthwyo'r broses o gyflawni yn unol â'r cyfleoedd a nodir.

Croesawodd aelodau'r Cyngor y cynnydd yn y maes hwnnw a'r cyfleoedd i'r Brifysgol. Nododd y Cadeirydd i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gytuno, yn ei gyfarfod diweddar, i neilltuo adnoddau i gefnogi'r fenter.

Dywedodd yr Athro White fod angen sicrhau bod diogelwch digidol cadarn ar waith cyn dechrau ar broject o'r fath. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu sicrwydd i'r Athro White, a hynny er bod seiberddiogelwch yn her gyson a bod y Pwyllgor Archwilio a Risg hwythau hefyd yn dymuno cael sicrwydd yn ei chylch, bod y Brifysgol yn profi ac yn mireinio'r trefniadau sydd ganddi, gan gynnwys rhoddi hyfforddiant i'r staff ar reoli digwyddiadau o'r fath. Nododd Mr Devani hefyd yr angen i sicrhau bod gan y Brifysgol yswiriant addas mewn materion diogelwch digidol.

B. Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Ganghellor am y diweddariadau. Yn ogystal, hysbysodd y Cadeirydd y Cyngor iddi gael ei chadarnhau'n ddiweddar yn Gadeirydd newydd ar Grŵp Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChuW), ac y byddai ChuW hefyd yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch y Bil TER dros yr wythnosau nesaf, a bydd cyflwyniad ar y cyd â Phrifysgolion Cymru yn mynd gerbron y Senedd. Bu i'r Is-Ganghellor ac aelodau'r Cyngor longyfarch y Cadeirydd yn wresog ar gael ei hethol yn Gadeirydd ChuW, a chroesawyd y cyfleoedd cadarnhaol yr oedd hynny'n eu rhoi i'r Brifysgol.

## 21.21 STRATEGAETH YSTADAU

A. Bu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a'r Campws atgoffa'r Cyngor y cyflwynwyd cyfeiriad teithio cychwynnol y Strategaeth i'r Pwyllgor Gweithredu ac i'r Cyngor fis Hydref 2020. Cyflwynwyd diweddariadau pellach ar y strategaeth newydd trwy gyflwyniadau a diweddariadau yng nghyfarfodydd y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, trwy ymgynghori â'r staff a'r myfyrwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol. Bu hynny'n fodd i'r Brifysgol gyhoeddi dogfen Strategaeth yr Ystadau, a fyddai'n cael ei hadnabod fel Gweledigaeth Ystadau 2030+. Trwy ddeall blaenoriaethau, uchelgais ac anghenion busnes y Brifysgol gallai'r tîm Ystadau a Gwasanaethau Campws nodi a gosod sut y byddai'r ystâd yn gorfod ymateb a datblygu dros y 10 mlynedd nesaf, a nodwyd bod y ddogfen strategaeth ddrafft yn ceisio dangos sut roedd y Brifysgol yn bwriadu datblygu ei hystad i ddiwallu ei hanghenion busnes.

Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Cyfarwyddwr gyda chymorth Mr Adrian Vickers, Fusion Partners, a dywysodd y Cyngor drwy bob adran o'r Strategaeth, gan ddarparu gwybodaeth am y weledigaeth a rhaglen pob Coleg a'r Gwasanaethau Proffesiynol, gan amlygu'r rhaglen waith, y llinellau amser a'r camau gweithredu allweddol.

Nodwyd bod y rhaglen wedi'i chynllunio i'w chyflawni dros y 10 mlynedd nesaf a byddai'r Brifysgol yn buddsoddi oddeutu £250m dros y cyfnod hwnnw. Nododd y Cyfarwyddwr y deuai cyllid y rhaglen o gymysgedd o ffynonellau allanol a mewnol. Dylunwyr graffeg fyddai'n dylunio dogfen derfynol Gweledigaeth Ystadau 2030+, a byddai fersiwn Gymraeg yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg, unwaith y byddai'r cynnwys wedi'i gytuno a'i gwblhau.

B. Gofynnwyd nifer o gwestiynau ar ôl y cyflwyniad, ac yn benodol gwnaed y sylwadau a ganlyn:

- Byddai mwy o eglurder ynghylch gweithrediad pob un o'r projectau a amlinellir yn ddefnyddiol maes o law, er mwyn rhoi hyder ynghylch y lefelau cyllid sydd ar gael ym mhob cam;

- Byddai goruchwyliaeth y Bwrdd Craffu Rhaglenni Cyfalaf yn hanfodol i symud y weledigaeth yn ei blaen, gan ganolbwyntio ar ddilyniant y cyllid, a sicrhau trosolwg llywodraethol gadarn dros y rhaglen;

- Roedd y £250m a grybwyllwyd gan y Cyfarwyddwr yn cynnwys yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfredol o £120m;

- Roedd yn hanfodol sicrhau cysylltiadau teithio llesol effeithiol ac effeithlon rhwng pob rhan o'r campws;

- O ran lleoliad arfaethedig yr Ysgol Feddygol roedd yn bwysig sicrhau y datblygir labordai sgiliau clinigol fel adnoddau y gallai'r partneriaid allanol hefyd eu defnyddio;

- Dylid ystyried materion cynhwysiant anneuaidd, gan gynnwys diogelwch staff a myfyrwyr mewn mannau cyffredin ar gyfer pob un o'r projectau dan sylw.

  Trafododd yr Aelodau'r pwynt a godwyd gan yr Athro White, a chadarnhaodd Mr Avison nad oedd y mater hwn yn fater yr oeddent yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd. Yn ogystal, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau'r Campws fod toiledau niwtral o ran rhyw wedi'u cynnwys mewn datblygiadau cyfredol o amgylch yr ystâd.

- Mae'n bwysig sicrhau yr ystyrir y ddarpariaeth arlwyo ledled y campws cyfan o ran y cynigion ar gyfer y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol;

- Roedd sicrhau bod llefydd ar gael i fyfyrwyr astudio a chydweithio yn rhywbeth yr oedd y myfyrwyr yn gofyn amdano ar y campws, yn ogystal â llefydd ychwanegol i'r gymuned leol er mwyn dod â Bangor i mewn i'r Brifysgol.

Yn ogystal â'r sylwadau uchod, sicrhaodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau ynghylch y prosesau sy'n ymwneud â gwaredu asedau, yn ogystal â chyflwyno sylwadau pellach ynglŷn â'r cynlluniau wrth i'r projectau fynd rhagddynt. Darparwyd gwybodaeth bellach hefyd am berchnogaeth yr Hen Swyddfa Bost, ar ôl cwestiwn gan Mrs Lea-Wilson. Gofynnodd Mr Devani, fel aelod o Fwrdd MSParc, am gael gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r cwmni a ddeilliai o raglen Gweledigaeth Ystadau 2030+.

Cadarnhaodd Dr Williams yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, a hithau'n ateb cwestiwn yr Athro White, fod cyfleusterau'r Ysgol eisoes yn cael eu rhannu gyda phartneriaid allanol ac y byddai hynny'n parhau wrth ddatblygu'r cynlluniau ynghylch lleoliad yr Ysgol Feddygol. Yn ogystal, nododd Mr Wiegand a Dr Williams awgrym yr Athro White y gallai trafodaeth pellach fod yn fanteisiol gyda 203 Ysbyty Maes y Fyddin Cymru.

C. Ar ôl trafod ac ystyried, croesawodd a chefnogodd y Cyngor y cyfeiriad strategol yr oedd Mr Wiegand yn ei gynnig. **Cymeradwyd** dogfen Gweledigaeth Ystadau 2030+**.**

## 21.22 DATGELU BUDDIANNAU

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgelu pob buddiant personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni ddatgelwyd dim buddiannau yn y materion a oedd ar yr agenda.

## 21.23 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2021.

B. Darparwyd cofnod gweithredu a oedd yn nodi cynnydd holl gamau gweithredu'r Cyngor sydd heb eu cyflawni. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd y câi'r materion a godwyd gan yr aelodau yn ystod y drafodaeth ar gofnod 21.21 uchod eu cynnwys yn log gweithredu cyfarfod nesaf y Cyngor.

C. O ran Cofnod 21.4 D. (Adroddiad ynghylch Pontio) cadarnhawyd y cyflwynwyd adroddiad llawn ynghylch Pontio i gyfarfod diweddar y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'i drafod yno. Mae cofnod 21.34 C. isod yn cyfeirio.

D. O ran Cofnod 21.0 (Arolygon Myfyrwyr) rhoddodd yr Athro Turnbull ddiweddariad i'r Cyngor ynghylch y sefyllfa bresennol. O ran canlyniadau'r ACM (Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr) nodwyd y bu gweithgarwch sylweddol yn ystod yr haf a'r hydref, a bod cynllun ar waith i ymgysylltu trwy gydol y flwyddyn academaidd. Roedd nifer o gamau gweithredu eisoes wedi'u cwblhau, ac roedd eraill yn mynd rhagddynt. Nodwyd bod y

perfformiad yn ôl y camau gweithredu'n cael ei fonitro gan y Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr. Yn ogystal, o ran Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Hyfforddedig (PTES) nodwyd nifer o gamau gweithredu a'r rheini'n debyg i'r rhai a nodwyd eisoes ar gyfer ACM. Roedd y materion hynny'n mynd rhagddynt, a thrafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Deoniaid a'r Penaethiaid ynglŷn â pherfformiad a meysydd sgôr isel, gyda chynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith lle'r oedd hynny'n berthnasol. Yn olaf, o ran Arolwg Profiad Ôl-raddedigion Ymchwil (PRES) roedd yr Ysgol Ddoethurol yn gweithio gyda'r Ysgolion yr oedd eu sgôr yn is i ddatblygu cynlluniau gweithredu a fyddai'n cael eu goruchwylio ar lefel y Coleg.

## 21.24 MATERION Y CADEIRYDD

A. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod penderfyniad wedi'i wneud yn ddiweddar i ddisodli meddalwedd rheoli presennol y bwrdd gyda phecyn meddalwedd newydd o'r enw Admincontrol. Nodwyd bod y cynnyrch eisoes yn cael ei ddefnyddio yn nifer o brifysgolion y Deyrnas Unedig a chan fyrddau iechyd yng Nghymru. Byddai hyfforddiant i aelodau'r Cyngor, a'r gobaith oedd y byddai'r system ar waith erbyn diwedd Ionawr 2022.

B. Dywedodd y Cadeirydd iddi gwblhau Adolygiad Datblygiad Proffesiynol gyda'r Is-Ganghellor yn ddiweddar, a bod rhaglen beilot o werthusiadau 360 gradd i'r Cadeirydd a'r Is-Ganghellor ar y gweill ar hyn o bryd. Byddai adroddiad ar yr Adolygiad hwnnw a'r gwerthusiadau 360-gradd yn mynd gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

## 21.25 MATERION YR IS-GANGHELLOR

### A. Amcanion y Pwyllgor Gweithredu 2021/22

[1] Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ynghylch Amcanion y Pwyllgor Gweithredu ar gyfer 2021/22. Nodwyd yn sgil y trosolwg a gyflwynwyd i'r Cyngor yng nghyfarfod mis Medi, y darparwyd papur manylach gyda diweddariadau byr ar bob amcan, yn ogystal â nodi cyfrifoldebau allweddol aelodau'r Pwyllgor Gweithredu.

Atgoffodd yr Is-Ganghellor y Cyngor pa mor bell yr oedd y Brifysgol wedi teithio yn ystod y 3 blynedd diwethaf, i sefyllfa lle roedd ganddi ymdeimlad o bwrpas cyffredin, a bod y berthynas gyda'r staff, y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid allanol wedi gwella, ac roedd y berthynas â'r Cyngor ar sylfaen gadarnhaol. Yn ogystal, roedd sefydlu'r Fforwm Ymgygysylltu ar y Cyd, ar gyfer cyfathrebu rhwng uwch aelodau annibynnol y Cyngor, a chynrychiolwyr tri Undeb Llafur y Campws yn gam ymlaen i'w groesawu.

Atgoffwyd y Cyngor i'r Pwyllgor Gweithredu roi cynlluniau manwl 30 a 100 diwrnod ar waith yn 2019, yn ogystal â nodau 5 mlynedd i yrru'r agenda drawsnewid yn ei blaen. Er gwaethaf y pandemig gwnaed cynnydd o ran y

nodau, a rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariad manwl i'r aelodau ynglŷn â’r cynnydd a wnaed ar bob nod.

[2] Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-Ganghellor am y diweddariad cynhwysfawr a diolchodd i dîm y Pwyllgor Gweithredu am eu hymrwymiad mewn cyfnod hynod heriol. Cydnabu aelodau'r Cyngor eu diolch i'r Is-Ganghellor am arwain ar Strategaeth y Brifysgol 2030, ac am ei ddiweddariad ar y nodau pum mlynedd. Nodwyd bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gael i fesur cynnydd ar nifer o'r nodau, er roedd angen rhagor o waith yn y maes hwnnw, ac roedd systemau newydd yn cael eu caffael ar hyn o bryd, er enghraifft y system adnoddau dynol a chyflogres sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Athro White cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu i’r Cyngor dderbyn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn ei gyfarfod fis Ebrill, ac y câi ei rannu â'r Athro White.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn gwerthfawrogi cael gwybod am y cynnydd yn y meysydd hynny.

**B. Adroddiad y Pwyllgor Gweithredu**

Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad y Pwyllgor Gweithredu ac fe’i **nodwyd.**

## 21.26 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR

A. Cyflwynodd Mr Avison Gytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr yn y papurau o dan agenda 6, a nodwyd y cafodd y Cytundeb ei gymeradwyo'n ddiweddar gan Bwyllgor Gweithredu’r Brifysgol. Yn ogystal hysbyswyd yr aelodau, ar ôl yr adolygiad, na wnaethpwyd dim newidiadau i Siarter y Myfyrwyr eleni. **Nododd** y Cyngor y Cytundeb a gyflwynwyd, a'r sefyllfa o ran Siarter y Myfyrwyr.

B. Cafodd y Cyngor eu briffio ar y papur Dull Partneriaeth a Deialog Blynyddol gan Mr Avison. Nodwyd bod gan Undeb y Myfyrwyr ddull partneriaeth hirsefydlog gyda'r Brifysgol, a’u bod yn yn cydweithio i annog y myfyrwyr i gyfrannu at gynllunio a darparu’r addysgu a dylanwadu ar newidiadau strategol ledled y Brifysgol. Nodwyd mai crynodeb yw’r adroddiad o’r dull partneriaeth a'r ddeialog flynyddol rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol a hynny’n seiliedig ar 2020-21. Nododd y Cyngor fod Adroddiadau Profiad y Myfyrwyr a luniwyd gan Undeb y Myfyrwyr ac a ysgrifennwyd ar ôl ymgynghori â’r myfyrwyr, trwy Arolygon a Grwpiau Ffocws, ac a oedd yn seiliedig ar y materion mwyaf amserol a pherthnasol sy'n effeithio ar fyfyrwyr Prifysgol Mangor yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi’u cynnwys fel atodiad i’r adroddiad. Nodwyd fod y camau gweithredu wedi’u cwblhau.

Diolchodd aelodau'r Cyngor i Undeb y Myfyrwyr am y berthynas waith gadarnhaol barhaus gyda'r Brifysgol, ac am gyflwyno Adroddiadau Profiad y Myfyrwyr. Nodwyd bod gwaith eisoes wedi'i wneud i roi sylw i'r materion a godwyd, a byddai trafodaethau'n parhau gydag Undeb y Myfyrwyr, a oruchwylir o ran y Brifysgol gan yr Athro Turnbull.

Mewn ymateb i gwestiwn a gafwyd ymlaen llaw oddi wrth Mr Marc Jones, cadarnhaodd Mr Avison fod yr Undeb yn parhau i weithio gyda'r Swyddfa Datblygu ac Alumni i ddarparu gwybodaeth i'r clybiau a'r cymdeithasau i'w rhannu gyda'r myfyrwyr presennol ynghylch cynnal cysylltiadau â'r Brifysgol, fel cyn-fyfyrwyr. Yn ogystal roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhestr o gyn-fyfyrwyr a fu'n Swyddogion Sabothol er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r rhai a fu'n gwasanaethu fel Swyddogion Sabothol ar hyd y blynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cadeirydd cadarnhaodd Mr Avison i Undeb y Myfyrwyr gymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori ar y Strategaeth Ystadau, a'i fod hefyd yn aelod o'r Grŵp Strategaeth Ystadau a fu'n ymwneud â gweithredu Gweledigaeth Ystadau 2030+. Yn ogystal bu Mr Avison yn trafod y Strategaeth gyda'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws ar sawl achlysur. Cadarnhaodd Mr Avison fod Undeb y Myfyrwyr yn hapus gyda'r cynigion.

C. Cyflwynodd Mr Avison a Mr Dafydd eu hadroddiadau i'r Cyngor, a thynnwyd sylw'n benodol at yr eitemau a ganlyn:

- Diolchwyd i'r Pwyllgor Gweithredu am y sesiwn fyw Holi ac Ateb a gynhaliwyd ychydig wythnosau ynghynt. Yn honno ni chodwyd dim pryderon mawr gan y myfyrwyr;
- Roedd Undeb y Myfyrwyr ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer 10 o rolau staff myfyrwyr a fyddai'n rhoi sgiliau a phrofiad gwerthfawr i fyfyrwyr, ac yn datblygu eu cyflogadwyedd ochr yn ochr â chyflogaeth â thâl;
- Roedd Undeb y Myfyrwyr yn trafod diogelwch y myfyrwyr gyda'r Academi, clwb nos y myfyrwyr, a chadarnhawyd bod yr Academi yn defnyddio caeadau ar ben diodydd i warchod rhag sbeicio diodydd. Yn ogystal, bu'r Undeb yn cynnal ymgyrchoedd a digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth i gyd-daro ag ymgyrch genedlaethol fawr, gan gynnwys gorymdaith yn ddiweddar yn y ddinas a gefnogwyd gan tua 100 o fyfyrwyr;
- Penodwyd 27 o gynrychiolwyr cwrs Cymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd dros yr holl ysgolion a cholegau a chynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar lle bu'r cynrychiolwyr yn adrodd ynghylch y materion a godwyd. Nodwyd mai Rhagfyr 7 yw Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a bod UMCB yn awyddus i godi ymwybyddiaeth o'r diwrnod yn y Brifysgol;
- Bu timau chwaraeon yr Undeb yn codi arian drwy dyfu mwstashis a chymryd rhan mewn heriau ar gyfer ymgyrch iechyd meddwl y dynion, 'Tashwedd', a bu grŵp mawr o dimau chwaraeon Y Cymric hefyd yn rhedeg 5k noddedig.
- Bu Llywydd UMCB yn rhoi cymorth i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn eu hymdrechion i greu swydd debyg yn eu hundeb hwythau.

D. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Athro White, cadarnhaodd Mr Avison a Mr Dafydd na chafodd materion penodol eu codi gyda nhw ynglŷn â diogelwch myfyrwyr anneuaidd mewn mannau cyffredin. Ni chododd Cynrychiolwyr y Myfyrwyr sy'n cynrychioli cymuned y myfyrwyr LHDTC+ a Thrawsrywiol ychwaith ddim materion, a byddai cynrychiolwyr cwrs LHDTC+ sydd newydd eu penodi hefyd yn gallu rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn y dyfodol.

E. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cygnor, i Mr Avison a Mr Dafydd am eu hadroddiadau.

## 21.27 ADRODDIAD YNGHYLCH Y TABLAU CYNGHRAIR

A. Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio adroddiad ynghylch y Tablau Cynghrair, a roddai wybodaeth i'r Cyngor am y prif dablau cynghrair gartref ac yn rhyngwladol ac a ddefnyddir ledled sector addysg uwch y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, eu haliniad â Strategaeth 2030 Prifysgol Bangor, perfformiad diweddaraf Bangor yn y tablau cynghrair, a'n dull ninnau o ymdrin â pherfformiad yn y tablau cynghrair.

Nodwyd bod sylw neilltuol i'r Tablau Cynghrair yn y cyfryngau a'u bod yn elfen bwysig o'r brand a gynigir gan y Brifysgol. Cânt eu defnyddio gan ddarpar fyfyrwyr, eu teuluoedd ac athrawon/ymgynghorwyr mewn ysgolion/colegau addysg bellach. Yn achos myfyrwyr tramor, nid yw llywodraethau'n fodlon ariannu myfyrwyr oni bai eu bod yn dilyn cyrsiau'r prifysgolion hynny a gafodd sgoriau uchel.

Fodd bynnag, cynghorwyd y Cyngor ei bod yn bwysig deall bod cyfyngiadau i ddefnyddio tablau cynghrair i arwain strategaeth prifysgol, ac yn hytrach i fabwysiadu dull lle bo canlyniadau strategaeth lwyddiannus yn cyd-daro â pherfformiad gwell yn y tablau cynghrair a bod hynny'n cyd-daro â chenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol. Daw her arall yn y ffaith bod rhywfaint o ansefydlogrwydd tymor byr cynhenid i fethodolegau'r tablau cynghrair, sy'n peri problemau wrth alinio â gweledigaeth strategol yn y tymor hir. Gall newidiadau absoliwt cymharol fach yn y metrigau arwain at newidiadau mwy amlwg mewn perfformiad cymharol, yn enwedig os caiff data eu grwpio'n dynn o amgylch ystod gul o werthoedd, neu os yw data'n newid yn aml.

Hysbyswyd yr aelodau bod nifer o ffyrdd o fynd i'r afael â pherfformiad mewn tablau cynghrair a bod angen i'r Brifysgol nodi dull y gellir ei gyflawni o ystyried ei faint, sy'n gyson â'r portffolio o fentrau strategol a oedd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Rhoddwyd diweddariad i'r Cyngor ynghylch y cynnydd yn ôl rhai o'r camau gweithredu gwreiddiol arfaethedig a ddarparwyd yn y cyfarwyddyd blaenorol yn 2019, a nodwyd bod rhai o'r camau gweithredu arfaethedig wedi'u gohirio oherwydd newidiadau ymhlith yr uwch reolwyr ac effaith y pandemig.

B. Diolchodd Aelodau'r Cyngor i'r Pennaeth Cynllunio am ddiweddariad defnyddiol iawn a roddai sicrwydd ynglŷn â nifer o faterion. Ar ôl cwestiynau cadarnhaodd y Prif Swyddog Marchnata / Is-Lywydd Rhyngwladol fod dibyniaeth y myfyrwyr ar Dablau Cynghrair yn amrywio yn ôl a oedd y myfyriwr yn fyfyriwr o'r Deyrnas Unedig neu'n fyfyriwr rhyngwladol.

## 21.28 RECRIWTIO MYFYRWYR

A. Rhoddodd yr Athro Andrew Edwards y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol o ran recriwtio myfyrwyr a nododd fod llawer o ansicrwydd yn parhau yn y farchnad recriwtio myfyrwyr ar hyn o bryd, a bod amrywiadau mawr yn y data o'r naill wythnos i'r llall.

Nodwyd bod ceisiadau israddedig Cartref / UE (ac eithrio myfyrwyr a ariennir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru - HEIW) i fyny 14% o'u cymharu â'r un adeg y llynedd a bod chynnydd sylweddol yn enwedig ym meysydd Seicoleg, Gwyddorau'r Eigion a Sŵoleg. Mewn perthynas â cheisiadau israddedig Cartref/UE (myfyrwyr a ariennir gan HEIW yn unig) bu gostyngiad o 30% yn y ceisiadau o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd, ond adroddwyd bod hynny i'w ddisgwyl oherwydd i'r Brifysgol golli rhai o'r lleoedd nyrsio a gomisiynwyd gan HEIW. Bu cynnydd o 22% yn nifer y ceisiadau tramor israddedig o'i gymharu â'r un adeg y llynedd, roedd ceisiadau ôl-radd hyfforddedig Cartref / UE 9% yn is na'r un adeg y llynedd ond gwelwyd cynnydd sylweddol dros 2 flynedd. Yn olaf, roedd y ceisiadau ôl-radd hyfforddedig tramor yn is na'r un adeg y llynedd. Nododd yr Athro Edwards ei bod yn dal yn gymharol gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau cadarn ynglŷn â thueddiadau recriwtio'r farchnad dramor, ac i geisiadau gynyddu'n ddiweddarach yn y cylch yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Hysbysodd Mrs Westwood y Cyngor y bu'r diwrnodau agored diweddar yn llwyddiant a bu 1000 o ddarpar fyfyrwyr yn ymweld â'r campws dros y tri diwrnod. Nodwyd bod y Brifysgol hefyd yn cynnal digwyddiadau rhithwir yn ogystal â digwyddiadau ar y campws. Hysbyswyd y Cyngor, o ran y tueddiadau cyffredinol, fod dyddiad cau UCAS, a arferai fod yng nghanol mis Ionawr cyn y pandemig, bellach wedi symud i ddiwedd mis Ionawr a'i bod yn debygol y bydd yr ysgolion yn rhoi dyddiadau cau diweddarach i fyfyrwyr wneud eu ceisiadau.

C. Croesawodd y Cyngor y newyddion cadarnhaol ynglŷn â recriwtio myfyrwyr a nododd, gyda diolch, waith caled ac ymroddiad y staff ledled y sefydliad.

D. Rhoddodd Mrs Lorraine Westwood ddiweddariad byr i'r Cyngor ynghylch Strategaeth Recriwtio a Marchnata'r Deyrnas Unedig, a nodwyd bod y strategaeth ddrafft ar hyn o bryd yn dod i ddiwedd y cyfnod ymgynghori â'r staff. Caiff y sylwadau eu hymgorffori mewn fersiwn derfynol a gaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredu, a diweddariad i'r Cyngor yn ei gyfarfod fis Chwefror.

**21.29 DATGANIAD UNIONDEB YMCHWIL**

A. Hysbysodd yr Athro Spencer y Cyngor fod craffu ar gynnydd ar brojectau ymchwil prifysgolion, a bod rhanddeiliaid a chyllidwyr fel ei gilydd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â phrosesau llywodraethu ac uniondeb ymchwil prifysgolion. Rhaid oedd i'r Brifysgol sicrhau bod ganddi brosesau cadarn ar waith i sicrhau trosolwg a llywodraethu priodol dros ymchwil, ac ystyrid dau benodiad diweddar, sef Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol dros Lywodraethiant Ymchwil, ac Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil, yn allweddol i sicrhau bod prosesau llywodraethu ymchwil y Brifysgol yn cael eu datblygu a'u cryfhau.

B. Croesawodd yr Aelodau'r eglurder a'r buddsoddiad ychwanegol yn y maes ac ar ôl ystyried a thrafod **cymeradwyodd** y Cyngor y Datganiad Uniondeb Ymchwil.

## 20.57 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON ARIANNOL

A. Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor Ddatganiadau Ariannol drafft y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021, a ystyriwyd yn ddiweddar yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a’r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac ni chodwyd dim pryderon perthnasol gan yr aelodau, na chan yr archwilwyr, KPMG.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro y byddai fersiwn terfynol o'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer Llys y Brifysgol fis Chwefror 2022 ac y byddai'n ymgorffori'r datganiadau ariannol. Byddai angen rhai gweithgareddau a gwiriadau terfynol ar ôl cyfarfod y Cyngor ond nid oedd disgwyl iddynt arwain at newid sylweddol i'r fersiwn terfynol a gyflwynid gerbron y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Dros Dro y byddai'r fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor fis Chwefror 2022.

Nododd y Cyfarwyddwr Dros Dro mai'r argymhelliad i'r Cyngor oedd i gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol, a dirprwyo awdurdod i lofnodi'r datganiadau ariannol ar ran y Cyngor i Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Is-Ganghellor.

B. Wedi ystyriaeth lawn, **penderfynwyd**:

[1] Cymeradwyo Cyfrifon 2020/21 a'u llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau maes o law a'u hanfon i HEFCW erbyn diwedd mis Chwefror.

[2] Bod y Llythyr Cyflwyno Achos at yr Archwilwyr i’w lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor.

## 21.31 LLYWODRAETHU ACADEMAIDD

A. Cafodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiad Canlyniadau Gradd 19/20 a nodwyd yn benodol:

- Er mwyn lliniaru effaith pandemig Covid ar addysgu ac asesu, yn 2019/20, datblygodd y Brifysgol set o Reoliadau Force Majeure i ymdrin â dyfarnu graddau a’r dilyniant o’r naill flwyddyn academaidd i’r llall, er mwyn creu “rhwyd ddiogelwch” i’r myfyrwyr oherwydd effaith y pandemig ar eu hastudiaethau, a sicrhau bod safonau academaidd priodol yn cael eu cynnal.
- Ledled y Brifysgol cyflawnodd 119 o fyfyrwyr ddosbarthau gradd uwch nag y byddent wedi'i gyflawni o'u cyfartaledd cyffredinol, o roi cyfrif am ofynion y Rheoliadau. Nodwyd bod hynny’n cyfateb i 6% o’r holl fyfyrwyr a’i fod yn cynrychioli cydbwysedd priodol o ran lliniaru effaith y pandemig a sicrhau bod safonau academaidd priodol yn cael eu cynnal.
- Fel rhan o'i hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, dywedodd yr Athro Callow fod y Brifysgol yn cynnal dadansoddiadau rheolaidd o gyrhaeddiad gradd ar gyfer ystod o nodweddion demograffig, a’i bod yn lleihau ac yn dileu bylchau mewn cyrhaeddiad lle y'u nodir. Mae'r data'n dangos, a hynny dros

gyfnod yr adolygiad (ers 2015/16), bod data'r holl nodweddion demograffig yn adlewyrchu set ddata gyffredinol y Brifysgol, gan ddangos cynnydd yng nghyfran y myfyrwyr sy'n cael gradd dda.

B. Ar ôl ystyried **nododd** y Cyngor Ddatganiad Canlyniadau Gradd 19/20.

C. Cyflwynodd yr Athro Callow bapur ynghylch Llywodraethu Academaidd a nododd y Cyngor y wybodaeth a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i roi sicrwydd pellach. Roedd hynny'n cynnwys adroddiadau oddi wrth y Senedd, Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynglŷn ag addysg, profiad y myfyrwyr ac ymchwil, a chanlyniadau llawn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr a diweddariadau rheolaidd gan Undeb y Myfyrwyr gan gynnwys derbyn y Cytundeb Perthynas.

Nododd yr Athro Callow i grynhoi, y cyflwynwyd prosesau sicrhau ansawdd rhag risg y pandemig i addysg y myfyrwyr yn union cyn blwyddyn academaidd 2020/21 a sicrhaodd y byddai'r myfyrwyr yn gallu cyflawni deilliannau dysgu eu rhaglenni trwy gydol eu hastudiaethau yn 2020/21, gan alluogi myfyrwyr ar eu blwyddyn olaf i raddio yn y rhaglen o'u dewis. Yn fwy eang yn 2020/21 bu'r Brifysgol yn datblygu rhagor ar y dull unigryw sydd ganddi o ran Sicrhau Ansawdd ac yn gwreiddio'r dull hwnnw trwy ddatblygu dull graddol sy'n gwarchod rhag risg o gadw trosolwg dros bopeth, a gweithio ar draws y gwasanaethau academaidd a phroffesiynol gyda'r myfyrwyr i ymateb i risgiau lle mae SA yn y cwestiwn a defnyddio prosesau craidd SA megis cynnal adolygiad blynyddol i lywio gwelliannau. Yn ogystal, bu 2020/21 yn gyfnod o ehangu cyflym mewn gweithgareddau gwella academaidd, gan gymryd camau bwriadol i wella'n barhaus ein harferion addysgu a dysgu a thrwy hynny brofiad dysgu trawsnewidiol ein myfyrwyr.

D. Ar ôl trafod **nododd** y Cyngor Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd, 2021.

E. Yng ngoleuni'r wybodaeth a roddwyd yn A. ac C. uchod, **cytunodd** y Cyngor i'r pum datganiad blynyddol ar sicrwydd i'w hanfon at HEFCW.

**21.32 ADRODDIAD BLYNYDDOL PREVENT**

A. Rhoddodd Mr Eric Hepburn, Llywodraethwr Arweiniol Prevent y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ynghylch y cynnydd a wnaed o ran gweithredu ac ymgorffori gofynion Deddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a dyletswydd 'Prevent'. Nododd y Cyngor fod hynny'n parhau'n uchel ar agenda'r Grwpiau Tasg a Strategaeth, y Pwyllgorau, a Swyddogion unigol, a nododd y polisïau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd a'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd na wnaeth y Brifysgol ddim atgyfeiriadau ffurfiol at broses Channel amlasiantaethol yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, na dechrau blwyddyn 2021/22. Cadarnhaodd Mr Hepburn ei fod fel Llywodraethwr Arweiniol yn cael ei hysbysu'n gyson gan Bennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu ynghylch pob agwedd ar yr agenda Prevent.

B. Nodwyd bod hyfforddiant Prevent ar gael ar hyn o bryd fel briffiad manylach gan Gydlynydd cyswllt Prevent yn Adran Addysg y Brifysgol, a hefyd drwy e-fodiwl rhagarweiniol byr. Ar ôl cais gan Mr Hepburn **cytunodd** y Cyngor i ofyn i'r Pwyllgor Pobl

a Diwylliant drafod y pwynt ymhellach yn ei gyfarfod nesaf, gyda'r bwriad o gadarnhau y dylai briffiad manylach Prevent fod yn orfodol i aelodau allweddol o'r staff.

B. **Cymeradwyodd** y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i HEFCW.

## 21.33 ADRODDIAD O'R SENEDD

A. Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd rhwng Medi 2020 a Tachwedd 2021 (gweler Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Tynnodd yr Is-Ganghellor sylw'r Cyngor at yr eitem ganlynol:

**Diffiniad Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost [IHRA] o Wrth-Semitiaeth**

Nodwyd i'r Pwyllgor Gweithredu ailddatgan yn ddiweddar ei benderfyniad a wnaed yn wreiddiol fis Hydref 2020 i fabwysiadu diffiniad cyffredinol yr IHRA o wrth-Semitiaeth ond cododd amheuon ynglŷn â'r 11 enghraifft gyfoes ac ni fabwysiadwyd y rheini. Trafodwyd y dull yn y Senedd, ac ar ôl trafod, cymeradwyodd benderfyniad y Pwyllgor Gweithredu i fabwysiadu diffiniad IHRA, ond ni fabwysiadodd yr enghreifftiau cyfoes.

## 21.34 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Parthed cofnod 2122.20 (monitro Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21) nodwyd bod adroddiad manwl ar gael i aelodau'r Pwyllgor cyn y Cyngor er mwyn i'r Cyngor fedru llofnodi'r datganiad sicrwydd. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd dim pryderon wedi'u codi gan aelodau'r Pwyllgor.

C. Parthed cofnod 2122.21 (Adroddiad Pontio) nodwyd mewn cyd gyfarfod diweddar gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg y cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws bapur a oedd yn crynhoi project cyfalaf Pontio, gan gynnwys: yr amserlen, sut y cynyddodd y costau, y gwaith sy'n weddill i'w wneud ar yr adeilad, y gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r rheini, a chynigion i reoli rhaglenni cyfalaf y dyfodol yn y Brifysgol.

## 21.35 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. Cymeradwywyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y Cofnodion). Tynnwyd sylw'r aelodau'n neilltuol at Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a oedd ynghlwm wrth y cofnodion.

B. Derbyniodd y Cyngor adroddiad HEFCW ynghylch yr Adolygiad Sicrwydd Sefydliadol diweddar a nodwyd yn gyffredinol i HEFCW ddod i'r casgliad bod prosesau atebolrwydd

addas gan y Brifysgol i sicrhau dilysrwydd Ffurflen Sicrwydd Blynyddol y Brifysgol. Nodwyd bod nifer o fân wendidau yn y system, ac y caiff y rheini eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu a'u dwyn ymlaen gan Ysgrifennydd y Cyngor.

C. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar y Risgiau Corfforaethol a Ddosbarthwyd yn Weddilliol yn Eithafol ac Uchel a nododd bod 12 o'r 23 risg sydd ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Brifysgol yn cael eu dosbarthu'n weddilliol yn eithafol neu'n uchel, h.y., o gymhwyso dulliau rheoli'r brifysgol, y rhai a fyddai'n cael effaith fawr neu gritigol, ac sy'n debygol neu bron yn sicr o ddwyn ffrwyth yn y 1-3 blynedd nesaf.

## 21.36 PWYLLGOR POBL A DIWYLLIANT

A. **Cymeradwywyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd 1 Hydref 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV wrth gopi swyddogol y cofnodion).Nododd Dr Rees, fel Cadeirydd, mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor hwn a thrafodwyd nifer o feysydd defnyddiol.

B. Dywedodd Dr Rees hefyd wrth y Cyngor iddo weithredu fel Cadeirydd yn ddiweddar, fel y caniateir o dan yr Ordinhad, i gadarnhau teitl Athro Emeritws ar yr Athro John Witcombe. Câi'r mater ei gyflwyno hefyd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 21.37 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cymeradwywyd** yr adroddiad ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 29 Hydref 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV wrth gopi swyddogol y cofnodion). Nodwyd i'r cyfarfod ganolbwyntio'n bennaf ar drefniadau rheoli coronafirws, a bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn sicr bod y trefniadau'n gefnogol ac yn cydymffurfio â'r disgwyliadau. Ni chodwyd dim pryderon sylweddol yn y Pwyllgor. Nododd y Cyngor yr adroddiad ystadegol 3 mis cryno sy'n ymwneud â Damweiniau a Digwyddiadau ac Absenoldebau oherwydd Salwch y Staff sydd ynghlwm wrth y cofnodion.

## 21.38 PWYLLGOR MATERION Y GYMRAEG

**Cymeradwywyd** yr Adroddiad ynglŷn â chyfarfod Pwyllgor Materion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021 (ynghlwm fel Atodiad VII wrth gopi swyddogol y cofnodion). Nodwyd y bu Cadeirydd y Cyngor yn bresennol yn y Pwyllgor fel arsylwr, ac y bu hynny'n ddefnyddiol.

## 21.39 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD

**Cymeradwywyd** yr Adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd 27 Hydref 2021 (ynghlwm fel Atodiad VIII wrth gopi swyddogol y Cofnodion).Croesawodd y Cadeirydd y trafodaethau cadarnhaol parhaus ynglŷn a'r Siarter, y Statud a'r Ordinhadau

## 21.40 FFARWELIO

**Nododd** y Cadeirydd i Mr Tudur Williams adael y Brifysgol yn ddiweddar, a bod trefniadau i benodi olynydd o blith staff anacademaidd y Brifysgol i'r Cyngor. Hysbysodd y Cadeirydd y Cyngor y byddai'n ysgrifennu ar ran y Cyngor i ddiolch i Tudur am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i'r Brifysgol a'r Cyngor.

## 21.41 DIOLCH

A. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i'r Uned Gyfieithu am eu gwaith nid yn unig yn y cyfarfod, ond hefyd am baratoi'r cyfieithiadau Cymraeg o bapurau'r cyfarfod.

B. Yn ogystal, diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd, a'r tîm llywodraethu am eu gwaith parhaus i wella ansawdd a chyflwyniad y papurau ar gyfer y cyfarfod.